

Taflen ffeithiau:

Beth yw Gweithiwr Cymdeithasol Gwasanaethau Plant a beth maen nhw'n ei wneud?

Gall pob teulu brofi amseroedd anodd ac angen help

Weithiau mae'r help sydd ei angen arnoch ar gael yn eich cymuned, ysgol neu feddygfa feddyg teulu, er enghraifft ac weithiau mae angen gwasanaeth mwy arbenigol arnoch. Os oes pryderon am ddiogelwch a lles plant, mae gan bobl fel athrawon, meddygon a gweithwyr cymorth ddyletswydd i'w riportio i Wasanaethau Cymdeithasol Plant.

Mae'r gyfraith yn dweud bod gennym ddyletswydd i ymchwilio i unrhyw bryderon sydd gan bobl am ddiogelwch a lles plant. Mae gweithwyr cymdeithasol yn y Gwasanaeth Plant yn gweithio gyda theuluoedd a'n prif nod bob amser yw cadw teuluoedd gyda'i gilydd os yw'n ddiogel gwneud hynny. Rydym eisiau cefnogi teuluoedd cystal ag y gallwn i wneud yn siŵr mai dyma beth sy'n digwydd.

Os oes angen i ni ddarganfod mwy amdanoch chi a'ch teulu, gofynnir i weithiwr cymdeithasol ymweld â'ch teulu a chwblhau asesiad. Mae hyn yn golygu y byddant yn gofyn i rieni, gofawyr, plant, pobl ifanc, aelodau eraill o'r teulu fel neiniau a theidiau, modrybedd ac ewythrod a gweithwyr proffesiynol fel athrawon, pan fo'n briodol, rhai cwestiynau am y wybodaeth a roddwyd i ni ac yn ysgrifennu'r atebion. Yn aml iawn byddwn yn penderfynu nad oes angen cymorth ar deuluoedd gan Wasanaethau Cymdeithasol Plant ac yn cyfeirio at wasanaeth arall fel Magu Plant, Cymorth Ieuencid neu wasanaethau cymunedol eraill, fel yr Hwb Cymorth Cynnar.

Weithiau gall y geiriau 'Gweithiwr Cymdeithasol' ddychryn pobl gan fod y newyddion yn gallu swnio fel bod gweithwyr cymdeithasol yn cymryd plant o'u teuluoedd yn ddiangen, neu ddim yn eu cymryd pan ddylen nhw ac yna rhywbeth drwg yn digwydd i'r plentyn. Mae gweithwyr cymdeithasol yn amddiffyn miloedd o blant bob blwyddyn. Hyd yn oed ar yr achlysuron prin pan nad yw plant yn gallu byw gyda'u rhieni yn ddiogel, byddem bob amser yn gweld a oes unrhyw un arall yn eich teulu, neu hyd yn oed ffrindiau, sy'n gallu gofalu am y plant yn lle hynny. Weithiau gall hyn fod am gyfnod byr i roi cyfle i ni weithio gyda'n gilydd a darganfod mwy amdanoch chi a'ch teulu fel y gallwn eich helpu'n iawn.

Rydym yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc ym Merthyr Tudful yn ddiogel ac yn hapus, yn ffynnu ac yn cael y cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i fod yn llwyddiannus. Rydym yn gwybod bod rhieni a phobl ifanc yn arbenigwyr yn eu bywydau eu hunain a byddwn yn gwrandao ar eich barn, eich dymuniadau a'ch teimladau pan fyddwch chi'n gweithio gyda ni. Weithiau bydd yn rhaid i weithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill wneud penderfyniadau er mwyn cadw plant yn ddiogel nad ydych yn cytuno â nhw, ond byddwn bob amser yn agored ac yn onest gyda chi. Mae'r straeon digidol a'r taflenni ffeithiau ar wefan adran Gwasanaethau Plant www.Merthyr.gov.uk wedi'u datblygu i ddarparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar rieni, gofawyr a phobl ifanc.